oldbell 3

Research Policy Analysis
Ymchwil Polisi Dadansoddi





Cyflenwi Grwpiau Ffocws:

Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru

Adroddiad Cryno

Mai 2015
Old Bell 3 Ltd

www.oldbell3.co.uk

Cyflenwi Grwpiau Ffocws i gefnogi'r Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru

ADRODDIAD CRYNO I'R PANEL ADOLYGU

Awdur:

Nia Bryer
Old Bell 3 Ltd
57a Rhosmaen Street
Llandeilo, Sir Gaerfyrddin
SA19 6LW
01558 822 922
nia@oldbell3.co.uk

Mai 2015

Gwiriwyd gan Gareth Williams

oldbell 3

Research Policy Analysis
Ymchwil Polisi Dadansoddi

Cynnwys

1 CYFLWYNIAD 4
2 CYLLID A THREFNIADAU CYLLIDO AU AR HYN O BRYD 6
3 CYLLIDO A THREFNIADAU CYLLID AU YN Y DYFODOL.....16

1 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwyniad

Cafodd Old Bell 3 Ltd ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i Banel Adolygu annibynnol dan arweiniad yr Athro Diamond a gafodd y dasg o gynnal adolygiad mawr o gyllido Addysg Uwch (AU) a threfniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru. Disgwylir i'r adolygiad hwn, a gomisiynwyd gan y Gweinidog Addysg, adrodd yn 2016 a bydd yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ar draws cyllid Addysg Uwch yng Nghymru.

Nod y gwaith hwn oedd hysbysu a chryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru drwy gofnodi, trefnu a hwyluso gweithgaredd grwpiau ffocws, barn a safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol a nodwyd ar faterion yn ymwneud â'r Adolygiad. Yn fwy penodol, roedd y gwaith yn cynnwys trefnu a hwyluso trafodaethau grwpiau ffocws ar ddechrau 2015 gyda phum grŵp targed o randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â sefydliadau rhyngol er mwyn nodi cyfranwyr posibl ar gyfer pob grŵp ffocws, ymgymryd â recriwtio a hwyluso grwpiau ffocws yn ogystal â chyflwyno adroddiadau ar ganfyddiadau'r safbwyntiau a gafodd eu cyfleu yn ystod y trafodaethau.

1.2 Dull a Rhaglen Waith

Mae'r rhaglen waith sy'n sail i'r Adroddiad Cryno hwn wedi cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cyfnod sefydlu a oedd yn cynnwys mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r Athro Diamond a swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod y fethodoleg ar gyfer ymgymryd â'r gwaith ymchwil a rhychwantu syniadau posibl ar gyfer themâu trafodaethau grwpiau ffocws a chyfranwyr posibl o blith rhanddeiliaid gan arwain at baratoi rhaglen waith ddiwygiedig;
- Cyfnod cwmpasu a oedd yn cynnwys gofyn i nifer o sefydliadau rhyngol a chynrychioliadol megis Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) Cymru, Prifysgolion Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), y Sefydliad Gwasanaethau Myfyrwyr

(AMOSSHE) a Chymdeithas Genedlaethol y Cynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA) i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer grwpiau ffocws ymchwil;

- Cam yn ymwneud â gwaith desg oedd yn cynnwys adolygiad o ddogfennau allweddol a datblygu offerynnau ymchwil grwpiau ffocws;
- Trefnu a hwyluso trafodaethau grwpiau ffocws rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015 gyda'r pump grŵp canlynol o randdeiliaid:
    - Sefydliadau cyflogwyr: Mynychodd cyfanswm o 21 o gynrychiolwyr cyflogwyr ddau grŵp ffocws gydag un yn canolbwyntio ar gasglu barn cyflogwyr y sector preifat mawr a'r sector cyhoeddus a'r llall yn cynnwys cynrychiolwyr Ffederasiwn Busnesau Bach;
    - Myfyrwyr/cynrychiolwyr myfyrwyr Addysg Uwch: Cyfrannodd 25 o gynrychiolwyr (myfyrwyr Addysg Uwch neu swyddogion Sabothol NUS) at dri grŵp ffocws a gynhaliwyd yng nghynhadledd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ac un sefydliad Addysg Bellach (AB);
    - Darpar fyfyrwyr Addysg Uwch: cyfrannodd cyfanswm o 39 o fyfyrwyr o'r chweched dosbarth mewn ysgolion a sefydliadau AB at grwpiau ffocws a gafodd eu hwyluso mewn pum sefydliad ac yng nghynhadledd UCM Cymru;
    - Cynrychiolwyr Cymorth i Fyfyrwyr: cymerodd grŵp o 14 o gynrychiolwyr o naw sefydliad Addysg Uwch ran mewn un grŵp ffocws;
    - Cynrychiolwyr Ehangu Mynediad: mynychodd grŵp o 10 o gynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau a chyrff cynrychioliadol un grŵp ffocws.
- Paratoi papurau unigol yn cyflwyno barn pob un o'r pump grŵp o randdeiliaid i gael eu hystyried gan Banel Adolygu Diamond fel rhan o'i Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllido Myfyrwyr yng Nghymru.

Diben a Strwythur yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adborth gan y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda phump grŵp o randdeiliaid yn gynnar yn 2015. Nod yr adroddiad yw crynhoi'r negeseuon allweddol a'r canfyddiadau cyffredin o'r ymchwil a wnaed. Fe wnaethom yn gyntaf (yn Adran 2) ystyried y safbwyntiau a gyflwynwyd ar y trefniadau cyllido a chyllid myfyrwyr AU ar hyn o bryd cyn adrodd ar farn pobl am y trefniadau yn y dyfodol (yn Adran 3).

2 CYLLID A THREFNIADAU CYLLIDO AU AR HYN O BRYD

2.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon rydym yn ystyried:

- Ystyriaethau allweddol a'r cymhelliant i fyfyrwyr gymryd rhan mewn AU (Adran 2.2)
- Barn am y polisi ffioedd dysgu presennol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (Adran 2.3);
- Barn am y cymorth cynnal cyfredol sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru (Adran 2.4);
- I ba raddau y mae'r cyllid cyfredol i fyfyrwyr cyfredol a chyllid AU yn diwallu anghenion cyflogwyr, darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol AU (Adran 2.5);
- Cryfderau a gwendidau'r trefniadau cymorth ariannol i fyfyrwyr ar hyn o bryd, gan gynnwys o safbwynt amcanion ehangu mynediad (Adran 2.6);
- Barn am argaeledd ac ansawdd y cymorth nad yw'n ariannol i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yng Nghymru (Adran 2.7);
- Effeithiolrwydd y cymorth i fyfyrwyr ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig ac i ba raddau y mae ehangu mynediad yn cael sylw (Adran 2.8);
- I ba raddau y credid bod AU yn bodloni anghenion gwahanol fyfyrwyr (Adran 2.9)
- I ba raddau y credid bod AU yn bodloni anghenion cyflogwyr (Adran 2.10)
- Barn am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg AU (Adran 2.11).

2.2 Ystyriaethau allweddol a chymhelliant i fyfyrwyr i ymgysylltu ag AU

Datgelodd adborth gan ddarpar fyfyrwyr AU fod y ffactor allweddol oedd yn effeithio ar eu penderfyniadau i symud ymlaen i Addysg Uwch yn ymwneud â rhagdybiaeth gyffredin fod gradd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gwaith sy'n talu'n dda ac i sicrhau gyrfa lwyddiannus yn y dyfodol. Er bod darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol AU wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i gost addysg uwch, roedd yn ymddangos mai ychydig iawn o effaith yr oedd yr ystyriaethau hyn yn eu cael ar eu penderfyniadau i gofrestru yn y brifysgol. Yn hytrach, bernid bod ffactorau eraill yn fwy pwysig gyda darpar fyfyrwyr yn rhoi pwyslais arbennig ar y tebygolrwydd y byddent yn mwynhau eu hunain yn y brifysgol. O bosibl yr unig eithriad oedd nifer fach o ddarpar fyfyrwyr AU a oedd yn cael eu cyfyngu'n ariannol yn yr

ystyr mai dim ond os oeddent yn byw gartref yr oeddent yn gallu fforddio astudio neu na allent fforddio cynnal eu hunain mewn lleoliadau penodol, megis Llundain.

O ran y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar eu dewis o sefydliad a chyrsiau i'w hastudio, roedd darpar fyfyrwyr yn cael eu dylanwadu'n bennaf gan y graddau Safon Uwch a ragwelid ar eu cyfer (a fyddai'n cyfyngu ar rai yn eu dewis o sefydliadau posibl) ac a fyddai'r sefydliad yn cynnig profiad pleserus iddyn nhw wedi'i fesur yn ôl ei leoliad, ei awyrgylch a'i hamwynderau. Nododd rhai darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol AU y gallu i astudio yn nes at adref fel ystyriaeth allweddol yn eu dewis o sefydliad AU tra bod eraill yn rhoi mwy o bwyslais ar argaeledd a natur y cyrsiau ac enw da'r brifysgol ei hun.

Pwynt allweddol a godwyd gan gynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr (a rhai cyflogwyr) oedd bod lleiafrif o bobl ifanc yn cael eu hannog yn amhriodol neu'n cael eu rhoi o dan bwysau i fynd i'r brifysgol pan nad oedd hynny bob amser yn opsiwn gorau ar eu cyfer yn y tymor hir. Yn wir awgrymodd y rhanddeiliaid hyn y dylai darpar fyfyrwyr gael eu hannog i wneud penderfyniadau gwell a mwy gwybodus am astudiaethau Addysg Uwch yn enwedig o ystyried y cyfoeth o wybodaeth a data a oedd ar gael iddynt ar hyn o bryd.

2.3 Barn am y polisi ffioedd dysgu presennol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mynegodd myfyrwyr cyfredol AU farn gymysg ynghylch a oedd lefel y ffioedd dysgu yn gweithredu fel anghymhelliad i bobl ifanc sy'n ystyried mynd i Addysg Uwch: dadleuodd nifer o gyfranwyr fod y symiau dan sylw mor fawr fel bod darpar fyfyrwyr wedi ymgyfarwyddo â nhw. Yn wir, byddai'r ffaith nad oedd hyn yn ystyriaeth hanfodol ar gyfer y rhan fwyaf o ddarpar fyfyrwyr AU yn ymddangos fel pe bai'n cefnogi'r honiad hwn ac roedd darpar fyfyrwyr Addysg Uwch yn ymddangos fel pe baent yn cymryd yn ganiataol y byddent naill ai'n ennill digon o ganlyniad i ennill gradd i allu talu eu dyled yn gymharol hawdd, neu, na fyddent fyth yn gorfod poeni am ad-dalu eu dyled os nad oeddent yn ennill digon. Yn yr un modd, roedd yn ymddangos nad oedd myfyrwyr AU yn gyffredinol yn poeni am fynd i ddyled a fyddai'n cael ei had-dalu yn yr hirdymor ar ôl mynd dros drothwyon enillion arbennig. Yn gyffredinol, nid oedd myfyrwyr presennol na darpar fyfyrwyr AU yn rhy bryderus am y canlyniadau hirdymor ehangach o gronni dyled i ariannu eu hastudiaethau - er bod cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr yn benodol yn poeni y dylent fod, o ystyried nad oedd canlyniadau posibl dyled o'r fath ar ragolygon tymor hwy (ee benthyg ar gyfer morgeisi) yn glir eto. Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr, nad oedd ganddynt wybodaeth fanwl am y polisi ffioedd dysgu, o'r farn nad oedd yn ymddangos bod y polisi presennol yn llesteirio unrhyw

unigolion rhag cofrestru ar gyfer AU wrth ystyried bod gorgyflenwad o raddedigion yn y gweithlu ar hyn o bryd.

Nid oedd myfyrwyr presennol na darpar fyfyrwyr AU yn credu bod y ffioedd dysgu llawn o £9,000 yn cynrychioli gwerth rhesymol am arian, gyda rhai o'r myfyrwyr presennol mwy gwybodus yn nodi nad oedd y syniad o farchnad mewn Addysg Uwch gyda sefydliadau yn cynnig ffioedd amrywiol wedi cael ei gwireddu. Eto i gyd, roedd canfyddiad eang ymhlith y ddau grŵp hwn o randdeiliaid y byddai cymryd rhan mewn addysg uwch yn arwain at swyddi a fyddai'n talu'n well yn y dyfodol. Byddai'n ymddangos mai ychydig o ddarpar fyfyrwyr AU mewn gwirionedd oedd wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cydbwysedd rhwng y costau a gafwyd wrth fynychu AU ac unrhyw bremiwm y byddent yn debygol o'i ennill o ganlyniad i ennill cymhwyster gradd.

Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr AU yn ystyried y Grant Ffioedd Dysgu mewn goleuni cadarnhaol gan ei fod yn cael ei ystyried yn fecanwaith allweddol ar gyfer lleihau eu dyledion yn y dyfodol, er bod rhai yn teimlo y dylai AU, mewn egwyddor, fod am ddim fel hawl i bob myfyriwr. Er gwaethaf hyn, roedd ychydig o fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr AU yn holi a ddylai'r Grant Ffioedd Dysgu fod ar gael yn gyffredinol i bob myfyriwr waeth beth yw incwm y myfyriwr neu eu teuluoedd ac awgrymwyd y gallai fod yn briodol cyflwyno rhyw elfen o brawf modd yn y dyfodol pe bai'n parhau i fod ar gael. Cafodd safbwyntiau ychydig yn fwy cymysg eu cyfleu am y Grant Ffioedd Dysgu gan gynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr - yn wir roedd rhai yn amau a oedd yn briodol, o ystyried ei fod yn creu drwgdeimlad ymysg myfyrwyr sy'n hanu o Loegr yn SAU Cymru.

2.4 Barn am y cymorth cynnal sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith myfyrwyr presennol AU, cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr a chynrychiolwyr ehangu mynediad bod yr hyn a ystyrid yn gyffredinol fel y lefel annigonol o gyllid sydd ar gael i gefnogi costau cynhaliaeth sy'n cael eu gwario gan fyfyrwyr yn fater llawer mwy pwysig i fyfyrwyr na lefel y ffioedd dysgu a'r cymorth at ffioedd dysgu. Yn wir, o safbwynt ehangu mynediad i AU credid bod argaeledd cymorth ariannol tra roedd myfyrwyr yn y Brifysgol i helpu gyda chostau o ddydd i ddydd yn ffactor pwysicach wrth ddenu'r myfyrwyr hŷn i astudio nag argaeledd cymorth ariannol i helpu tuag at leddfu dyled yn y dyfodol yn deillio o ffioedd dysgu. Fel yn achos y Grant Ffioedd Dysgu, nid oedd cyflogwyr yn gallu rhoi sylwadau ar briodoldeb y cymorth cynhaliaeth sydd ar gael - ac eithrio lle roeddent yn pwyso ar brofiadau personol aelodau'r teulu.

Roedd barn gref ymysg bron yr holl fyfyrwyr AU presennol yn ogystal â chynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr bod uchafswm lefel y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, yn enwedig ar gyfer y rhai o gartrefi incwm-canol, yn rhy isel. Nodwyd sawl achos lle roedd costau llety myfyrwyr yn unig yn llyncu gwerth cyfan y benthyciad sydd ar gael. Roedd barn gyffredinol ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid na allai myfyrwyr oroesi'n ariannol heb naill ai weithio ar sail ran-amser neu gael eu cynnal yn ariannol gan eu rhieni er bod ganddynt hawl i uchafswm y benthyciad cynhaliaeth: gyda llawer o gyfranwyr yn nodi bod llawer o rieni a allent, ar bapur o leiaf, fforddio rhoi cymorth ariannol i'w plant tra roeddent yn y brifysgol yn dewis peidio â gwneud hynny. Roedd darpar fyfyrwyr yn benodol yn poeni am y pwysau y byddai astudio mewn AU yn ei osod ar amgylchiadau ariannol eu rhieni, yn enwedig gan na fyddent yn gymwys i gael uchafswm y cymorth cynhaliaeth sydd ar gael.

Barn gyffredinol a fynegwyd ar draws nifer o grwpiau rhanddeiliaid oedd bod y dull prawf modd presennol a fabwysiadwyd ar gyfer dyfarnu grantiau a benthyciadau cynhaliaeth yn amhriodol, yn bennaf gan ei fod yn methu â darparu ar gyfer unrhyw amgylchiadau unigol: roedd llawer o gyfranogwyr yn amlwg yn anghyfforddus â'r ffaith y caniateid i incwm y rhieni chwarae rhan mor fawr yn y system, pan oedd y brif egwyddor drefniadol yn ymwneud â chyn-fyfyrwyr yn ad-dalu dyledion pryd bynnag y byddent wedi ennill digon i wneud hynny. Roedd barn gyffredin a ddaeth i'r amlwg drwy'r gwaith ymchwil yn ymwneud â'r ffaith bod y pecyn presennol o gymorth cynhaliaeth wedi'i seilio ar fodel 'un maint i bawb' ac nad oedd ganddo'r hyblygrwydd i gymryd amgylchiadau unigol i ystyriaeth. Testun pryder arbennig i rai myfyrwyr AU oedd ei fod yn methu ag ystyried amgylchiadau unigol megis plant dibynnol eraill. Ar ben hynny, awgrymwyd yn gyffredinol gan fyfyrwyr AU presennol bod y disgwyl iddyn nhw ddibynnu ar eu rhieni i roi taliadau cynhaliaeth ychwanegol i bontio'u gofynion ariannol yn annheg. Cytunai darpar fyfyrwyr AU gyda'r farn hon ac roeddent yn dadlau'n aml nad oedd y model cyllid myfyrwyr ar hyn o bryd yn rhoi ystyriaeth i ymrwymiadau ariannol y rhieni, megis bod â phlant eraill i'w cynnal hefyd. Credai cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr nad oedd y dull prawf modd a ddefnyddir ar hyn o bryd, er bod ei fwriad yn dda, yn deg o ran diwallu anghenion myfyrwyr unigol. Pwysleisiwyd hefyd gan y grŵp rhanddeiliaid hwn nad oedd rhieni bob amser yn gwerthfawrogi faint o gyfraniad ariannol y byddai disgwyl iddynt ei roi - ac os bydd y system bresennol yn cael ei chadw, y dylai'r Llywodraeth fod yn fwy eglur ynglŷn â hyn.

Awgrymwyd hefyd, gan gynrychiolwyr cefnogi myfyrwyr ac ehangu mynediad yn arbennig, nad oedd myfyrwyr penodol (yn bennaf o gefndiroedd ehangu mynediad) yn elwa ar

ddarpariaeth allgyrsiol ychwanegol sydd ar gael mewn SAU oherwydd yr angen i orfod ymgymryd â gwaith â thâl i gynnal eu haddysg uwch yn ariannol, yn wyneb y ffaith bod cefnogaeth cynhaliaeth yn annigonol. Roedd cynrychiolwyr ehangu mynediad yn awyddus i bwysleisio na fyddai cyfran deg o'r myfyrwyr hyn yn gallu goroesi'n ariannol fel arall. Roedd yn dilyn felly mai'r grŵp hwn a gredid oedd yn colli allan yn aml ar gymorth a gweithgareddau AU allgyrsiol ychwanegol (ac mewn rhai achosion, bod ag amser annigonol i'w roi i'w hastudiaethau).

2.5 I ba raddau y mae'r cyllid myfyrwyr presennol a'r cyllid Addysg Uwch ar hyn o bryd yn diwallu anghenion cyflogwyr, darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol AU

Un thema gyffredin a drafodwyd ar draws nifer o grwpiau ffocws o randdeiliaid (myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr AU yn ogystal â chynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr a chyflogwyr) oedd safonau gwael o ran llythrennedd ariannol. Er y cytunid yn gyffredinol nad oedd gwell rheolaeth ariannol yn ateb i'r broblem o gefnogaeth cynhaliaeth annigonol, credid y byddai bod heb y sgiliau hyn yn gwneud pethau'n waeth.

Er yr awgrymwyd ei bod o bosibl yn rhy hwyr yn y dydd i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn y brifysgol, gan fod angen i'r mater gael mwy o sylw yn y cwricwlwm ysgol, awgrymwyd gan gynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr y gellid gwneud hyfforddiant ynghylch rheoli arian yn un o amodau cymorth ariannol i fyfyrwyr. Awgrymwyd hefyd gan y rhan fwyaf o grwpiau rhanddeiliaid y byddai symudiad tuag at daliadau cymorth cynhaliaeth yn fisol yn cael ei groesawu gan fyfyrwyr a staff cymorth fel ei gilydd a byddai hyn yn annog gwell rheolaeth ar arian.

Roedd gan y rhan fwyaf, ond nid yr holl ddarpar fyfyrwyr AU o bell ffordd, syniad bras am y cymorth ariannol y byddai ganddynt hawl iddo gan Lywodraeth Cymru pe baent yn derbyn lle i astudio mewn AU. Ond datgelodd yr adborth gan fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr AU fod llawer o ddryswch ynghylch y model cyllid myfyrwyr penodol a oedd yn bodoli - yn enwedig o ran y berthynas 'tapro' sy'n bodoli lle mae unigolion sy'n gymwys am lefelau is o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud cais am fenthyciadau mwy. Roedd cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr yn awgrymu'n gryf nad oedd myfyrwyr yn ymwybodol o lefel yr ymrwymiad ariannol y maent yn ei ysgwyddo.

Er gwaethaf y farn gyffredinol fod y pecyn grant cynhaliaeth a benthyciadau yn annigonol i dalu am gostau byw myfyrwyr, nid oedd gan ddarpar fyfyrwyr AU unrhyw awydd i weld arian

grant yn cael ei symud o ffioedd i gostau cynhaliaeth. Ond roedd myfyrwyr AU presennol yn fwy agored i'r syniad hwn ar ôl cael profiad uniongyrchol o'r anawsterau o gael dau ben llinyn ynghyd wrth astudio.

Cafodd safbwyntiau mwy cymysg eu cyfleu am effeithiolrwydd bwrsarïau ariannol presennol Sefydliadau Addysg Uwch - nid oedd cynrychiolwyr ehangu mynediad yn arbennig yn meddwl bod y rhain yn gweithio'n arbennig o dda ac awgrymwyd y gallai'r arian gael ei dargedu'n well yn y dyfodol yn unol ag angen myfyriwr yn hytrach na pherfformiad addysgol neu incymau cartrefi, neu, yn wir, fel cymhelliant i ddenu unigolion arbennig o dalentog i gofrestru.

2.6 Barn am argaeledd ac ansawdd cymorth nad yw'n ariannol[1] i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac sy'n astudio yng Nghymru

Dadleuai staff cymorth i fyfyrwyr a'r cynrychiolwyr ehangu mynediad fod cymorth anariannol wedi dod o dan bwysau cynyddol yn ddiweddar o ran nifer y myfyrwyr sydd angen cymorth a lefel dwyster y cymorth sy'n cael ei ddefnyddio. Credid bod hyn wedi digwydd oherwydd dau ffactor - roedd cyflwyno ffioedd dysgu wedi arwain at fyfyrwyr yn ymddwyn yn gynyddol fel defnyddwyr, a thrwy hynny ddod yn fwy heriol o ran eu gofynion am gymorth anariannol, a'r ffaith bod ehangu polisïau mynediad wedi arwain at iddi fod yn ofynnol i Sefydliadau Addysg Uwch ddarparu cymorth i boblogaeth o fyfyrwyr mwy amrywiol a heriol.

Credid yn gyffredinol gan y rhan fwyaf o grwpiau rhanddeiliaid bod argaeledd ac ansawdd y cymorth nad yw'n ariannol i fyfyrwyr yn amrywio o un sefydliad AU i un arall. O ganlyniad, nid oedd yn syndod efallai bod myfyrwyr Addysg Uwch presennol yn mynegi barn gymysg ynghylch ansawdd y cymorth nad yw'n ariannol i fyfyrwyr sydd ar gael yn eu sefydliad AU, ond er gwaethaf hyn, roeddent hwythau'n credu bod y gwasanaethau hyn wedi dod o dan bwysau difrifol yn ddiweddar. O ran y math o gymorth y credid oedd yn fwyaf hanfodol, roedd myfyrwyr AU presennol yn ystyried yr angen i gael cyngor am ddyledion myfyrwyr a'r cronfeydd caledi myfyrwyr yn ddarpariaethau pwysig. O'i gymharu â hyn roedd darpar fyfyrwyr AU wedi rhoi ychydig iawn o feddwl i'r maes hwn, ond er hynny roeddent yn disgwyl y byddai arnynt angen cymorth emosiynol yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y brifysgol yn ogystal â chymorth rheoli arian cyffredinol.

[1] Gallai cymorth heb fod yn ariannol i fyfyrwyr gynnwys cyngor ac arweiniad ar ddyled, arian, gofal plant, budd-daliadau a thai; cwnsela, iechyd, a chymorth lles yn ogystal â chymorth i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu penodol, anableddau, cyflyrau meddygol ac anawsterau iechyd meddwl.

Thema arall a godwyd gan gyflogwyr yn arbennig a nifer o gynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr (ond dim ond un myfyriwr AU presennol) oedd yr un am i'r angen am gymorth nad yw'n ariannol i fyfyrwyr ganolbwyntio mwy ar ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd y myfyrwyr. Yn wir, awgrymwyd bod ar raddedigion angen set o sgiliau cludadwy sy'n addas ar gyfer unrhyw gyflogwr a bod angen i Sefydliadau Addysg Uwch roi mwy o ystyriaeth i ddatblygu'r sgiliau hyn wrth astudio.

2.7 Effeithiolrwydd cymorth i fyfyrwyr ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig ac i ba raddau y mae ehangu mynediad yn cael sylw

Un neges allweddol a ddeilliodd o'r grŵp rhanddeiliaid ehangu mynediad oedd barn nad oedd y model cyllido AU newydd a chyflwyno ffioedd dysgu wedi arwain at unrhyw leihad yn nifer y myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig sy'n ymgeisio i neu'n astudio mewn AU. Yn hytrach, y farn oedd bod argaeledd a maint y cymorth cynhaliaeth ariannol yn ystyriaeth llawer mwy pwysig ym mhenderfyniad unigolion o'r fath i gofrestru a pharhau mewn AU. Roedd pwynt allweddol a wnaed gan gynrychiolwyr ehangu mynediad yn ymwneud â'r ffaith fod yr adnoddau ariannol sydd ar gael i Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi myfyrwyr ehangu mynediad wedi cael ei leihau o ganlyniad i gyllid AU yn cael ei gyfeirio drwy'r grant ffioedd dysgu. Ar ben hynny, nid oedd y grŵp hwn o randdeiliaid yn meddwl bod bwrsariaethau SAU yn gweithio'n arbennig o dda o ran cefnogi'r myfyrwyr hynny a oedd o dan yr anfantais ariannol fwyaf.

Roedd y staff cymorth i fyfyrwyr yn credu bod y model cymorth ariannol presennol wedi ei anelu'n drwm tuag at gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig, yn enwedig y rheini o deuluoedd incwm isel, a bod lefel y cymorth ariannol sydd ar gael i'r grŵp hwn yn eithaf hael ar hyn o bryd. Ar y llaw arall, credai cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr fod myfyrwyr o deuluoedd incwm canolig yn cael eu cefnogi'n annigonol a bod toriadau i gronfa caledi'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG) yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy anodd i gynnig unrhyw gymorth dewisol i'r grŵp hwn o fyfyrwyr.

Roedd rhai myfyrwyr addysg uwch presennol yn meddwl bod myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gallu elwa ar y lefel uchaf o gymorth ariannol sydd ar gael a'u bod felly yn cael eu cefnogi'n weddol dda. Yn yr un modd credai darpar fyfyrwyr AU (er eu bod yn ei chael yn anodd gwneud sylwadau ar y cwestiynau ynghylch y maes hwn) y dylai'r cynlluniau grant prawf modd, grantiau tapro a benthyciadau sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb mewn egwyddor.

2.8 I ba raddau y credid bod AU yn bodloni anghenion gwahanol fyfyrwyr

Derbynnid yn gyffredinol gan yr holl grwpiau rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr ymchwil bod y model cyllido AU presennol wedi'i anelu'n gywir tuag at gefnogi israddedigion amser-llawn. Er enghraifft roedd cyflogwyr yn meddwl bod y model wedi'i bwysoli yn arbennig tuag at gefnogi pobl ifanc mewn astudiaethau amser llawn. Yn yr un modd credai cynrychiolwyr ehangu mynediad fod cymorth ariannol wedi'i ailddosbarthu oddi wrth ddarpariaeth ôl-radd i israddedig yn ddiweddar (o ganlyniad i gyfran gynyddol o'r gyllideb Addysg Uwch gyffredinol yn cael ei chymryd gan y Grant Ffioedd Dysgu) ac yn yr un modd y rhoddwyd mwy o bwyslais ar astudiaeth amser llawn ar draul cefnogaeth i astudio'n rhan-amser.

Yn gyffredinol, roedd yr holl grwpiau rhanddeiliaid yn credu nad oedd y model presennol o gyllid myfyrwyr yn gwneud darpariaeth dda ar gyfer myfyrwyr aeddfed. Testun pryder arbennig i fyfyrwyr AU presennol oedd y diffyg cymorth a oedd ar gael ar gyfer rhieni sengl gyda chyfrifoldebau gofal plant. Dau grŵp allweddol arall a drafodwyd yn ystod yr ymchwil ac y credid nad oeddent yn cael eu cefnogi'n arbennig o dda oedd y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr yn dilyn y llwybr prentisiaeth fel ffordd o sicrhau cymhwyster AU.

Ystyriwyd bod cymorth ariannol ar gyfer darpariaeth ôl-raddedig hefyd yn brin ym marn y rhan fwyaf o grwpiau rhanddeiliaid - roedd cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr yn arbennig o uchel eu croch am y diffyg cefnogaeth ariannol sy'n bodoli ar gyfer y grŵp hwn o fyfyrwyr ac awgrymwyd bod angen i Gymru efelychu'r cynnig a gyflwynwyd ar draws Lloegr yn ddiweddar am gyllid i gefnogi myfyrwyr ôl-raddedig.

Roedd cyflogwyr a chynrychiolwyr ehangu mynediad yr un mor feirniadol â'i gilydd o'r hyn yr oeddent yn ei ystyried fel ymagwedd draddodiadol iawn SAU at gyflwyno darpariaeth ran-amser gan ei bod yn gyffredinol yn dal ar gael ar y campws yn unig, i ffwrdd o'r gweithle a heb ystyriaeth i sut y byddai hyn yn cyd-fynd gydag oriau gwaith: roedd hyn yn cael ei weld fel rhwystr mawr i fyfyrwyr hŷn astudio yn arbennig. Er gwaethaf hyn, nodwyd enghreifftiau cadarnhaol gan gyflogwyr o gydweithio effeithiol lle roedd sefydliadau wedi llwyddo i ddiwallu anghenion hyfforddiant penodol cyflogwyr. Yn fwy cyffredinol o ran darpariaeth ôl-radd credid y gallai'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ennill cymhwyster gael eu tynnu i raddau mwy o brofiad yn y gweithle. Yn yr un modd credai cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr bod argaeledd darpariaeth ran amser yn cael ei bennu i raddau helaeth gan ffocws cryf y sefydliadau ar israddedigion rhan amser a materion strwythurol oedd yn ymwneud â hyn (ee

amharodrwydd staff i addysgu yn ystod y min nosau a'r penwythnosau), ac roeddent hwy, ynghyd â chynrychiolwyr ehangu mynediad, yn awyddus i bwysleisio nad oedd unrhyw gymhellion ariannol yn bodoli i hybu sefydliadau i wneud newidiadau i'w darpariaeth ran amser bresennol.

Credir fod y pecyn cymorth i fyfyrwyr rhan-amser yn weddol anneniadol ar gyfer myfyrwyr mwy aeddfed a oedd ag ymrwymiadau ariannol a theuluol yn barod - fel y gwelwyd eisoes ystyriai myfyrwyr presennol a chynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr fod yna anghydraddoldeb sylweddol o fewn y model ariannu gan nad oedd yn gwahaniaethu rhwng ymrwymiadau ariannol myfyrwyr ifanc a rhai mwy aeddfed gyda mwy o ymrwymiadau ariannol. Ond credid yn gyffredinol mai un o gryfderau allweddol y ddarpariaeth ran-amser bresennol oedd y ffioedd is a godir gan brifysgolion Cymru am gyrsiau rhan-amser o gymharu â sefydliadau yn Lloegr.

2.9 I ba raddau y credid bod AU yn bodloni anghenion cyflogwyr

Roedd gan gyflogwyr safbwyntiau cymysg iawn am ansawdd y graddedigion a gynhyrchir gan Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru - roedd cyflogwyr mwy yn fwy tebygol o nodi profiadau cadarnhaol o gyflogi graddedigion tra roedd Busnesau Bach a Chanolig yn fwy tebygol o nodi ffafriaeth i recriwtio prentisiaid yn hytrach na graddedigion. Roedd y brif feirniadaeth a leisiwyd gan y rhai oedd yn anfodlon gyda'r garfan o raddedigion a gynhyrchir ar hyn o bryd yn ymwneud â'u diffyg sgiliau ymarferol a'u sgiliau cyflogadwyedd penodol yn ogystal â'r ffaith nad oedd graddedigion yn aml yn cymhwyso eu gwybodaeth yn y gweithle. Awgrymwyd hefyd bod prentisiaid yn tueddu i aros am fwy o amser gyda chyflogwyr ac nad oedd ganddynt ddisgwyliadau afrealistig o'r swydd a'r cyflogau y gallent ddisgwyl eu mynnu fel y credid oedd yn wir gyda graddedigion. Roedd cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr yn ymwybodol iawn o'r materion hyn sy'n wynebu cyflogwyr a byddent yn croesawu mwy o ffocws ar ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a'r profiad gwaith a geir gan raddedigion er mwyn bodloni anghenion sefydliadau sy'n cyflogi yn well.

Roedd neges allweddol arall a fynegwyd yn bennaf gan gyflogwyr yn ymwneud â'r anawsterau a gawsant wrth geisio ymgysylltu â phrifysgolion er mwyn ceisio dylanwadu ar gynnwys y cyrsiau (fel y byddent wedi eu teilwra'n well i ateb y sgiliau a'r wybodaeth yr oedd cyflogwyr yn gofyn amdanynt) yn ogystal ag i allu cael mynediad at a thargedu myfyrwyr blwyddyn olaf gyda chyfleoedd gwaith posibl.

Roedd un maes oedd yn peri pryder i nifer o gyflogwyr, yn ogystal â rhai o'r cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr, yn gysylltiedig â'r canfyddiad bod yna orgyflenwad o raddedigion yn cael eu cynhyrchu o fewn yr economi ac o ganlyniad fod gwerth cymhwyster gradd wedi erydu dros amser. Roedd hyn yn peri pryder i nifer o gyflogwyr o ran asesu'r gwerth am arian a geid o Addysg Uwch yng Nghymru o ystyried eu bod mewn llawer o achosion yn cyflogi graddedigion mewn swyddi nad ydynt yn swyddi ar gyfer graddedigion o gwbl. Roedd cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr yn ogystal â myfyrwyr presennol AU yn cydnabod y farn hon ac yn meddwl bod y nifer uwch o raddedigion sy'n dewis astudio ar lefel ôl-radd yn un dangosydd o werth erydol cymhwyster gradd gyntaf.

O ran diwallu anghenion cyflogwyr i ddatblygu sgiliau eu gweithlu presennol, soniodd cyflogwyr am wahaniaeth yn y dulliau rhwng un sefydliad a'r llall gyda 'hen golegau polytechnig' traddodiadol yn rhai y credid oedd â gwell cysylltiad â diwydiant na'r 'rhai mwy traddodiadol'. Wedi dweud hyn, roedd cyflogwyr yn ymwybodol iawn bod y diffyg màs critigol o ran niferoedd myfyrwyr ar draws SAU Cymru yn ogystal â chystadleuaeth rhwng sefydliadau yn rhwystrau sy'n eu hatal rhag datblygu darpariaeth fwy arbenigol er mwyn cwrdd ag anghenion cyflogwyr yn well.

2.10 Barn am ddarpariaeth AU cyfrwng Cymraeg

Ystyriai grwpiau rhanddeiliaid yn gyffredinol ei bod yn anfantais bod y cyllid a oedd wedi'i glustnodi'n flaenorol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi cael ei ddileu - yn bennaf oherwydd y byddai nifer y myfyrwyr a allai ac a fyddai'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser yn gyfyngedig ac felly byddai'n aneconomaidd i sefydliadau ddarparu ar eu cyfer oni bai bod cymhelliant ariannol ar gael. Roedd pwynt pwysig arall a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwil yn ymwneud â'r ffaith y credid bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn destun cylchoedd ariannu tymor byr a oedd yn rhwystro ei ddatblygiad a'i argaeledd.

Roedd yn ymddangos bod gan ddarpar fyfyrwyr AU a oedd ar hyn o bryd yn astudio ar Safon Uwch / Lefel 3 drwy gyfrwng y Gymraeg o leiaf rywfaint o ymwybyddiaeth o'r cymorth ariannol ychwanegol oedd ar gael i gymell y nifer sy'n manteisio ar AU cyfrwng Cymraeg. Yn gyffredinol, credid y gellid gwneud mwy i hyrwyddo cymorth, fel ysgoloriaeth cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

3 CYLLIDO A THREFNIADAU CYLLID AU YN Y DYFODOL

3.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon rydym yn ystyried:

- Barn ynghylch sut y dylai system AU o'r radd flaenaf yng Nghymru edrych yn y dyfodol a'i blaenoriaethau allweddol (Adran 3.2);
- Barn ynghylch sut y dylai cyllid myfyrwyr a chymorth i fyfyrwyr AU edrych yn y dyfodol, yn enwedig er mwyn cyflawni amcanion ehangu mynediad (Adran 3.3);
- Barn am fodel ariannu cynaliadwy ar gyfer AU yng Nghymru yn y dyfodol a fyddai'n darparu gwerth am arian (Adran 3.4);
- Barn am ddarparu cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU (Adran 3.5).

Cyn amlinellu'r farn a gafodd ei chyfleu yn ystod y grwpiau ffocws, mae'n werth nodi pwynt allweddol. Er bod cyfranwyr i bob grŵp ffocws yn glir ac yn cytuno'n weddol am yr anawsterau a'r problemau cyfredol sy'n wynebu cyllido AU a chyllid myfyrwyr wrth edrych tuag at y dyfodol roedd llawer llai o eglurder am y newidiadau y byddai gwahanol grwpiau rhanddeiliaid yn hoffi eu gweld ac roedd hyd yn oed llai o atebion cyffredin yn cael eu hawgrymu gan y pump grŵp rhanddeiliaid.

3.2 System AU o'r radd flaenaf yng Nghymru a'i blaenoriaethau allweddol

Roedd llawer o'r grwpiau rhanddeiliaid yn ei chael yn anodd ymdrin yn ddigonol â chwestiwn a ofynnwyd am sut y dylai system AU o'r radd flaenaf yng Nghymru edrych yn y dyfodol: roedd hyn yn arbennig o wir am ddarpar fyfyrwyr. Yn hytrach roedd pob grŵp o randdeiliaid yn tueddu i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol y tybid oedd yn bwysig o'u safbwynt nhw - er enghraifft roedd myfyrwyr presennol yn galw ar sefydliadau addysg uwch i sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd yn well ag anghenion y farchnad lafur leol i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i sicrhau swyddi i raddedigion tra roedd cyflogwyr yn pwysleisio'r angen ar i ddarpariaeth AU ymdrin â'r gorgyflenwad o raddedigion ar hyn o bryd a

chanolbwyntio ar gynhyrchu graddedigion a oedd â sgiliau technegol ac ymarferol gwell. Roedd cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr ac ehangu mynediad fel ei gilydd yn pwysleisio pwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar sicrhau mynediad i AU i bawb, beth bynnag eu hamgylchiadau neu anfantais ariannol.

Nododd myfyrwyr presennol a chynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr fel ei gilydd y byddai'n well ganddynt weld mwy o gymorth ariannol yn cael ei anelu at astudiaethau rhan-amser ac ôl-raddedig yn y dyfodol. Dadleuai cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr yn arbennig fod angen rhywfaint o ail-gydbwyso ar y system gyllido bresennol drwy symud oddi wrth ddarpariaeth israddedig llawn amser tuag at ddarpariaeth ôl-raddedig a rhan-amser yn y dyfodol. Pwysleisiodd myfyrwyr presennol hefyd bwysigrwydd cynnig system ddi-dor ar draws yr holl addysg ôl-orfodol i sicrhau y gallai'r rhai o gefndiroedd mwy bregus sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Bellach drosglwyddo i Addysg Uwch.

Credai cyflogwyr yn arbennig bod angen mwy o dryloywder o ran sut y byddai cyllid AU yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau yn y dyfodol - yn enwedig o ystyried bod ffioedd cyrsiau o £9,000 y flwyddyn ar hyn o bryd yn ymddangos yn uchel iawn. Roedd cyflogwyr yn awyddus hefyd i bwysleisio'r angen i ddarpariaeth ran-amser esblygu er mwyn symud i ffwrdd oddi wrth addysgu ar y campws at ddysgu arloesol a dysgu yn seiliedig ar y gweithle. Roeddent hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig oedd hi i gyrsiau AU ganolbwyntio mwy ar ymdrin ag anghenion penodol cyflogwyr o ran sgiliau yn y dyfodol.

3.3 Barn ynghylch sut y dylai cyllid myfyrwyr a chymorth i fyfyrwyr Addysg Uwch edrych yn y dyfodol, yn enwedig er mwyn cyflawni amcanion ehangu mynediad

Roedd rhai cyfranogwyr ymhlith myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr yn herio p'un a ddylai AU fod ar gael yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr ac yn galw am i ffioedd dysgu gael eu diddymu'n gyfan gwbl a'u disodli gyda model o ariannu Sefydliadau Addysg Uwch yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Ymhellach roedd y myfyrwyr hyn yn meddwl bod lefel y ffioedd dysgu a godir gan Sefydliadau Addysg Uwch (a delir gan fyfyrwyr o Loegr) yn afresymol o uchel - o safbwynt moesegol yn ogystal ag o safbwynt gwerth am arian i'r myfyriwr unigol. Awgrymodd rhai cyfranogwyr yn y grwpiau hyn a grwpiau rhanddeiliaid eraill nad oedd y prosiectau cyfalaf newydd a gyflawnir gan SAU Cymru a'r cyflogau a delir i uwch staff yn cyd-fynd â'r darlun o sefydliadau sy'n brin o arian. Ar wahân i hyn, nid oedd gan ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol lawer o syniad am sut y mae'r model cyllido AU yn gweithio.

Roedd myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr yn tueddu i amddiffyn argaeledd y Grant Ffioedd Dysgu yn y dyfodol er bod myfyrwyr presennol yn rhoi'r argraff na fyddent yn gwrthwynebu newid mewn pwyslais o gymorth tuag at hyfforddiant i gymorth tuag at gynhaliaeth. Yn groes i hyn efallai roedd darpar fyfyrwyr yn gyffredinol yn erbyn unrhyw awgrym y dylai cydbwysedd y cyllid grant gael ei symud i ffwrdd oddi wrth ffioedd tuag at grantiau cynhaliaeth.

Ychydig iawn o fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr oedd yn amddiffyn y dull prawf modd presennol a fabwysiadwyd ar gyfer dyfarnu cymorth cynhaliaeth ar sail incwm y rhieni, gyda'r mwyafrif yn ffafrio mwy o degwch yn seiliedig ar amgylchiadau'r myfyriwr eu hunain. Teimlai llawer o fyfyrwyr presennol os bydd lefel y ffioedd a godir yn cael ei gynnal, fod angen i Sefydliadau Addysg Uwch sicrhau y codid am lai o gostau ychwanegol (megis deunyddiau a llyfrau) hefyd. Awgrymwyd hefyd bod angen i Sefydliadau Addysg Uwch edrych ar duedd bresennol darparwyr llety i ddefnyddio'r terfyn ar fenthyciad ffioedd cynhaliaeth fel meincnod ar gyfer yr hyn yr oeddent yn ei godi ar gyfer rhent.

Dywedodd myfyrwyr presennol y byddent hefyd yn croesawu model symlach o ariannu myfyrwyr y gellid ei gyfleu'n well i ddarpar fyfyrwyr. Roedd awydd cyffredinol ymhlith myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr i weld dull mwy hyblyg yn cael ei fabwysiadu yn y ffordd roedd cymorth ariannol yn cael ei ddyfarnu (a oedd yn cymryd ffactorau fel dibynyddion ac ymrwymiadau ariannol y rhieni i ystyriaeth) a hefyd cynnydd yn nherfynau uchaf y benthyciad cynhaliaeth y gellid ei fenthyg.

Derbynnid yn gyffredinol bod angen adolygu argaeledd bwrsariaethau SAU - gyda myfyrwyr yn croesawu model a fyddai'n cyd-fynd yn well ag anghenion ariannol myfyrwyr yn hytrach na bod yn gymorth i recriwtio neu i wobrwyo rhagoriaeth. Yn gysylltiedig â hyn neges feirniadol a gafodd ei chyfleu gan gynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr oedd barn bod polisi presennol Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y myfyrwyr AU o gefndiroedd difreintiedig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn llwyddiannus dros ben, ond y dylai gwella'r modd y cedwir y grŵp hwn ar draws AU fod yn flaenoriaeth yn y dyfodol.

3.4 Safbwyntiau ar fodel cynaliadwy o gyllido Addysg Uwch yng Nghymru yn y dyfodol a fyddai'n darparu gwerth am arian

Mynegodd yr holl grwpiau rhanddeiliaid bryderon am gynaliadwyedd y model cyllido presennol yn y dyfodol.

Un maes oedd yn peri pryder i'r rhan fwyaf o grwpiau rhanddeiliaid oedd y rhagolwg am y gyfradd uchel o beidio ag ad-dalu benthyciadau myfyrwyr, ac a oedd hyn yn bwrw amheuaeth dros gynaliadwyedd y model yn y dyfodol. Credai cyflogwyr yn arbennig fod y gyfradd uchel o ddiffygdalu yn dystiolaeth gref i awgrymu nad oedd y model ariannu presennol yn gweithio'n effeithiol. O ganlyniad awgrymodd rhai o'r grŵp hwn o randdeiliaid a ddylid rhoi mwy o ystyriaeth wrth ddyfarnu cymorth ariannol i fyfyrwyr i a oedd y cyrsiau addysgol uwch a fyddai'n cael eu hastudio yn debygol o arwain at swyddi go iawn o fewn yr economi leol.

Fe wnaeth cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr ac ehangu mynediad fel ei gilydd godi cwestiynau pwysig hefyd ynghylch cynaliadwyedd y model ariannu presennol. Holodd cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr am gynaliadwyedd y Grant Ffïoedd Dysgu cyfredol - dywedodd rhai y byddai'n well ganddynt ei weld yn cael ei ddileu'n gyfan gwbl. Credai eraill y dylai lefel y grant gael ei ostwng tra credai'r cynrychiolwyr oedd yn weddill y dylai gael ei ddarparu ar sail prawf modd. Roedd cynrychiolwyr ehangu mynediad yr un mor bryderus nad oedd y model cyllido presennol yn gynaliadwy yn y dyfodol a nodwyd mai'r Grant Ffïoedd Dysgu oedd prif ffynhonnell y pwysau. Yn wir, galwodd y grŵp rhanddeiliaid am ailwampio sylfaenol ar y model cyllido presennol ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymhellion ariannol uniongyrchol i ariannu darpariaeth nad oedd yn hunangynhaliol yr oedd angen iddi gael ei darparu gan Sefydliadau Addysg Uwch, o gofio bod sefydliadau yn gweithredu o fewn amgylchedd fwyfwy cystadleuol.

Roedd un pwynt holl bwysig arall a godwyd, yn bennaf gan gynrychiolwyr ehangu mynediad a chymorth i fyfyrwyr, yn ymwneud â'r ffaith fod cynaliadwyedd y drefn gyllido bresennol ar lefel sefydliadol yn amrywio gyda rhai sefydliadau a oedd â chyfran fawr o fyfyrwyr nad oeddent yn hanu o Gymru yn fwy tebygol o fod o'r farn fod y model cyllido presennol yn gynaliadwy.

O ran darparu gwerth am arian, roedd cyflogwyr yn bryderus iawn nad oedd yn ymddangos bod y model cyllido AU presennol yn darparu gwerth am arian o ystyried bod yna orgyflenwad o raddedigion yn cystadlu am swyddi nad oeddent ar gyfer graddedigion o fewn yr economi. Cafodd safbwyntiau cymysg eu cyfleu ar draws nifer o'r grwpiau rhanddeiliaid

ynghylch a ddylai cymorth ariannol gael ei alinio a'i dargedu'n well tuag at y meysydd pwnc hynny lle'r oedd naill ai brinder sgiliau neu angen economaidd cryf.

3.5 Barn ynghylch darparu cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU

Credai'r rhan fwyaf o gyfranwyr i'r grwpiau ffocws na ddylai cymorth ariannol, a'r Grant Ffioedd Dysgu yn benodol pe bai'n aros, gael ei gyfyngu i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yng Nghymru yn unig. Nid oedd y mwyafrif llethol o ddarpar fyfyrwyr, y rhan fwyaf o fyfyrwyr presennol, bron pob cyflogwr a mwyafrif y cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr, yn meddwl y dylid ei gyfyngu fel hyn. Roedd cyflogwyr yn arbennig o uchel eu cloch o ran eu gwrthwynebiad i newid polisi posibl o'r fath gan ddadlau ei bod yn bwysig cefnogi myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i astudio yn rhywle arall er mwyn sicrhau eu bod yn ehangu eu gorwelion ac yn datblygu hyder. Yn yr un modd credai cynrychiolwyr cymorth na fyddai'n ddymunol capio uchelgais myfyrwyr o Gymru a oedd yn dymuno astudio ym mhrifysgolion gorau Lloegr. Roedd cynrychiolwyr ehangu mynediad yn cyfleu barn fwy cymysg ar y mater hwn - roedd yn cael ei gydnabod ar y naill law bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei golli i sefydliadau'r tu allan i Gymru eto ar y llaw arall bod sefydliadau yng Nghymru yn gyffredinol yn fewnforiwr net o fyfyrwyr AU a bod nifer y myfyrwyr sy'n dod i astudio yng Nghymru o'r tu allan yn cynyddu.

Credai lleiafrif o ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol yn ogystal â chynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr y dylid ystyried system ariannol a oedd yn gwobrwyo myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a oedd naill ai wedi aros, neu ddychwelyd i Gymru i weithio ar ôl graddio - er enghraifft, awgrymwyd y gellid edrych ar fodel ariannu dwy haen a oedd yn cynnig gwahaniaeth bychan rhwng y cymorth at ffioedd dysgu sydd ar gael mewn sefydliadau yng Nghymru ac yn Lloegr neu un a fyddai'n dileu cyfran uwch o'r ddyled ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a ddaeth o hyd i waith yng Nghymru ar ôl graddio. Ychwanegid y dylid gwneud rhywfaint o lwfans ar gyfer amgylchiadau penodol, megis lle nad oedd cwrs addysg uwch ar gael yng Nghymru. Roedd darpar fyfyrwyr yn pryderu y gallai unrhyw newidiadau i'r polisi cyllido myfyrwyr presennol roi mwy o bwysau ar nifer y lleoedd i raddedigion sydd ar gael ar draws prifysgolion Cymru. Roed y grŵp hwn yn awyddus i bwysleisio pe bai newid o'r fath yn cael ei gyflwyno yna byddai angen i Lywodraeth Cymru a sefydliadau addysg uwch unigol ganiatáu ar gyfer cynnydd yn rhifau eu graddedigion i ystyried y galw cynyddol ymhlith darpar fyfyrwyr. Yn wir cyfaddefodd rhai darpar fyfyrwyr y byddai cyfyngu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru yn gwneud iddynt ailystyried eu penderfyniad

gwreiddiol i astudio mewn sefydliad y tu allan i Gymru a dewis un yng Nghymru, er bod rhai yn honni y byddent yn ailystyried y posibilrwydd o astudio ar lefel AU yn gyfan gwbl.